

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mai 21ain - 2014
am 7.30 o'r gloch.

- 1. Presennol** - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Geraint Parry (Clerc), Carwyn Jones (CJ), Alwena Roberts (AW), Rhian Hughes (RH), Dafydd Pritchard (DP), Paul Gash (PG)
Agorwyd y cyfarfod gan y Gadeirydd, wrth fynd yn syth i bwynt 8 - Trafodaeth ar Cynllunio lleol gyda Dewi Francis Jones.
- 2. Ymddiheuriadau** - Cyng. Alwyn Rowlands, Cyng. Maldwyn Williams a Cyng. L Davies.
- 3. Datgan Ddiddordeb**
Cyng. M Roberts a Cyng. A Roberts ar drafodaeth i gofrestru hawliau yn Gwelfryn, Llanddona.
- 4. Cofnodion**
Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 ddeg o Ebrill fel rhai cywir gan Cyng. Roberts, eilio gan Cyng. Hughes, gan newid dau bwynt.
- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
 - 5.1 **Wefan i'r Cyngor Cymuned** – linc i "Bar Code Scanner" ar y wefan. Disgwyl manylion.
 - 5.2 **Fynwent Llanddona** - CJ yn adrodd fod cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, gydag un gwrthwynebiad i law. Arolygydd i benderfynu a ddylid galw ymchwiliad cyhoeddus.
 - 5.3 **Llwybr Tai Bach** - wedi derbyn ymateb oddiwrth Cyngor Sir oherwydd yr oedi yn ymateb, anffodus mae'r swyddog yn absennol o'i waith oherwydd materion personol, a bydd nifer o wythnosau eto cyn dychwelyd yn ôl i'w waith.
 - 5.4 **Difrod ar y Traeth** - Clerc wedi cysylltu ar Swyddfa Cofrestru Tir ynghlyn a gwybod pwy ydi'r tiffeddiannwr ger Tywyn, ond yn anffodus nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Wedi derbyn e-bost oddiwrth T Seale lle mae hi yn codi pryder o gylch ysgarthion dynol sydd ar y twyni tywod. Hefyd papur toiled sydd wedi ei staenio wedi ei daflwyd i'r gwrychoedd ar lwybr y traeth. PG yn adrodd bod o wedi gweld papur toiled yn ei gwrychoedd hefyd. Hefyd mae jet sgi's yn mynd i fyny ac i lawr y traeth yn gyflym, wrth wneud swm a bod y niwsans yn gyffredinol. Clerc i ymgynghori a'r harbwr feistr.
 - 5.5 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau** - LD a CJ wedi ymuno ar gyfarfod 20/05/14. Mae angen gwblhau holiadur gyda manylion digwyddiadau yn y Cymuned. I drafod ymhellach.
 - 5.6 **Llwybrau lleol** - MR yn gofyn faint o ad-daliad yr ydym yn ei gael gan y Cyngor Sir? Clerc i adrodd yn cyfarfod nesaf.
 - 5.7 **Defibrilator** – i drafod ymhellach.
 - 5.8 **Côr Cymuned Llanddona** – maent nawr wedi derbyn piano.
 - 5.9 **Trwsio Swing Maes Chwarae Plant** - gwaith wedi ei gwblhau. Wedi derbyn nifer o llythyrau o ddiolch gan blant yr Ysgol.
 - 5.10 **Maes Parcio Pŵc y Felin** - Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir, dim wedi derbyn ymateb. CJ - fuasai'n syniad creu grŵp i drïo cael grant i ymateb be sydd angen.
 - 5.11 **Cadw Biniau - Pŵc y Felin** – tir adran Tai. Clerc i anfon llythyr.
 - 5.12 **Llwybr Tan Dinas (Rhif 57)** – dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr.
 - 5.13 **Cofnodion dwyieithog** – dim cwyn wedi ei dderbyn hyd yma. Penderfynwyd cadw'r cofnodion yn Gymraeg.
 - 5.14 **Cerrig ger Llain Gron** – dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr.
- 6. Adroddiad gan y Cynghorwyr**

Cadeirydd yn darllen e-bost i **LD** oddiwrth G LL Jones (Menter Môn) - dim yn sicr be ydi'r canlyniad, gyda chofrestru'r tir comin o gylch yr Ysgol. Tir yma yn berchnogaeth Menter Môn. Gan fod yr ysgol yn cau ac efallai bod yn cloi'r maes chwarae, awgrymwyd ein bod yn symud yr offerion i'r cae chwarae cyfagos. Awgrymwyd hefyd rhoi gwahodd i Mr D Williams (Adran Eiddo Cyngor Sir) i ein cyfarfod nesaf.

CJ - Ysgol Llanddona - wedi penderfynu rhannu'r adnoddau gydag Ysgolion lleol. Bydd y drwsau yn cael eu cloi ar 4/08, gyda byrddio'r ffenestri a throsglwyddo goriadau i Adran Eiddo. Mae yn warthus sut maent wedi trin staff yr Ysgol, rhai wedi cael cynnig gwaith yng Nghaergybi.

LD (e-bost) - wedi trafod craciau lôn y traeth gyda'r Cyngor Sir.
- 7. Ceisiadau Cynllunio**
 - 22C219 - Cais llawn ar gyfer dymchwel yr ystafell haul presennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn Pant y Grug, Llanddona - dim gwrthwynebiad.

8. Trafodaeth ar Cynllunio Lleol

Cadeirydd yn croesawu Dewi Francis Jones (Rheolwr Datblygu Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn) i'r cyfarfod.

Eglurodd sut mae ceisiadau cynllunio yn cael ei phenderfynu yn yr adran, gan orfod gweithio o fewn y polisiau a safonau technegol. Unrhyw gais sydd yn dod i mewn, mae rhaid iddynt gymryd sylw o'r agweddau economaidd a chymdeithasol yr ardal. Mae'n nodweddiadol bod dau neu tri swyddog yn gwneud penderfyniad ar gais, trwy ymgynghori gydag arbenigwyr ar safonau technegol. Ar adegau mae gan swyddogion barn wahanol, felly bydd rhaid i'r swyddog achos gwneud penderfyniad.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr adran ddim yn cymryd sylw o'r sylwadau a godwyd gan y Cyngor Cymuned ac aelodau lleol ar geisiadau. Eglurodd bod unrhyw gais sydd yn mynd yn groes i benderfyniad y Cyngor Cymuned, mae'r Cyngor Sir yn ymateb wrth egluro sut maent wedi cyrraedd y penderfyniad. Nid oeddwn yn cytuno bod hyn yn digwydd, Clerc i anfon enghraifft. Os ydi'r Cyngor Cymuned ddim yn cytuno gydag unrhyw benderfyniad ar gais, ni allt apelio, ond gwneud cynw ffurfiol i'r Cyngor Sir, ac wedyn i'r Ombwdsmon. Ffordd arall yw gofyn am adolygiad barnwrol. Bydd Polisi Cynllunio newydd allan yn 2016, wrth ganolbwyntio ar strategaeth ac yn llai manwl. Ar hyn o bryd mae rhaid gweithio o fewn tri chynllun sydd yn gwneud gwaith yn galed iawn.

Diolchodd y Cadeirydd i Dewi Francis Jones am fod yn bresennol.

9. Llwybrau Lleol

Llwybr Tan Dinas Rhif 57 (Tan Dinas) – dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr.

Llwybrau Troed Rhif 15 a 22 (Ffynnon Oer a Erwau'r Môr) – Cyngor Sir yn parhau i drafod opsiynau i'r gwriad.

10. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- GL Jones – trwsio siglenni Maes Chwarae Plant - £599.05
- Cadeirydd ar Clerc yn arwyddo ffurflen awdit 2013/14

Incwm

- Praesept 1af - £1,716.66

11. Gohebiaeth

Llythyr – Cyngor Troed – rhif 15 a 22

Llythyr – Cyngor Sir, Llwybr Tai Bach

Llythyrau – Plant Ysgol Llanddona

Pecyn – Cofrestra Tir, Gwelfryn

Pecyn – Hacker Young 2013/14

e-bost – T Seale, traeth Llanddona

e-bost – Cyngor Sir, galw oer

e-bost – Cyngor Dref Biwmares

12. UFA:

12.1 Arolwg manau chwarae a mynwentydd – Clerc i weithredu.

12.2 Godwyd pryder ynghylch rhodd a wnaed tuag at daith i unigolyn. Clerc i gael arweiniad pellach.

12.2 Amlinellodd y Clerc y mesur sy'n golygu bod Cynghorau Tref a Chymunedau fod dim rhaid cael o leiaf dau lofnod ar bob sic, a galluogi defnydd taliadau electronig. Cytunwyd i gadw trefn bresennol.

12.3 Galw oer - Clerc i roi gwahodd i'r swyddog at ein cyfarfod.

12.4 Wedi derbyn cais i gofrestru hawliau hawddfaint neu arall (B117) a gais i gofrestru ar sail meddiant gwrthgefn (B13) - I gael hawliau tramwy troed dros dir yn Gwelfryn, Llanddona gan Glenis Roberts. Rhif teitl CYM526084. Penderfynwyd yn unfrydol i gydsynio a'r cais. Clerc i weithredu.

12.5 Curio ffiniau 26/05/14 - Cyngor Dref Biwmares gofyn am gytundeb i osod toiledau cludadwy wrth warchodfa bws yn Gorslwyd ac ym maes parcio Eglwys Llaniestyn. RH i gysylltu â Cyngor Dref.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.50 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 18/06/14 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad